AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Canlyniadau beicio, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (yr Arolwg Teithio). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd o bob cwr o Gymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar deithio ar feic. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am sut mae pobl yn teithio, a'u barn a'u hagweddau tuag at feicio.

Mae'r Arolwg Teithio yn arolwg newydd, a dyma'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Efallai fod gwahaniaethau'n codi oherwydd bod diffiniadau gwahanol wedi'u defnyddio ar gyfer arolwg, gan fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio neu gan fod gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data'n cael ei gasglu o sypiau rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Mae nifer o dermau sy'n ymwneud yn benodol â thrafnidiaeth wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi llunio dogfen ddiffiniadau i helpu pawb i ddeall.

Y prif ganfyddiadau

- Rydym yn amcangyfrif bod 1.4% o deithiau y pen y flwyddyn wedi'u gwneud drwy feicio.
- Dywedodd 9.3% o ymatebwyr eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos. Dywedodd 76.8% o ymatebwyr nad oeddent wedi beicio o gwbl yn y deuddeg mis diwethaf.
- Roedd 88.6% o deithiau ar feic wedi cael eu gwneud gan y 9.3% o ymatebwyr a oedd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos.
- Roedd 66.3% o feicwyr naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon â'u taith gyffredinol.
- "Mwy o lwybrau teithio oddi wrth draffig" oedd y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog beicwyr i feicio'n amlach (46.9%).
- Cafodd 83.4% o deithiau beicio eu cwblhau gan ddynion a ymatebodd.

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n hafal i 100%.

Pa mor aml mae pobl yn teithio ar feic

Roedd y cwestiynau am ba mor aml yr oedd pobl yn teithio yn mesur pa mor aml yr oedd unigolyn wedi beicio yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn wahanol i gyfran y dull teithio, sef cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wneir ar feic.

- Dywedodd 9.3% o ymatebwyr eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos (3.0% y rhan fwyaf o ddiwrnodau, 3.3% sawl gwaith yr wythnos a 3.0% unwaith yr wythnos).
- Anaml yr oedd 13.1% o ymatebwyr yn beicio (3.3% unwaith neu ddwy y mis, 3.7% unwaith bob ychydig fisoedd, a 6.2% unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn).
- Dywedodd 76.8% o ymatebwyr nad oeddent yn beicio o gwbl.

Beicio: amlder teithio

Ffigur 1: Pa mor aml yr oedd ymatebwyr wedi beicio dros y deuddeg mis diwethaf, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn beicio'n aml, yn anaml neu ddim o gwbl. Dywedodd 76.8% o ymatebwyr nad oeddent yn beicio o gwbl. Dywedodd 9.3% o ymatebwyr eu bod yn beicio'n aml, gydag 13.1% yn dweud mai anaml yr oeddent yn beicio.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio

Rhyw yr ymatebydd

- O blith yr ymatebwyr, nododd cyfran uwch o ddynion (13.3%) eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â 5.8% o fenywod.

Statws anabledd

- Nododd 7.1% o ymatebwyr anabl eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â 10.0% o ymatebwyr nad oeddent yn anabl.
- Roedd gwahaniaeth o 9.9 pwynt canran yng nghyfran yr ymatebwyr anabl a'r rhai nad oeddent yn anabl oedd ddim yn beicio o gwbl. Dywedodd 84.8% o ymatebwyr anabl nad oeddent wedi beicio o gwbl yn ystod y deuddeg mis diwethaf, o'i gymharu â 74.9% o ymatebwyr nad oeddent yn anabl.

Grŵp oedran

- Mae'r niferoedd sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos yn gostwng wrth i oedran gynyddu, o 12.9% o'r rhai 16-24 oed i 3.3% o'r rhai 85 oed neu hŷn.

Gallu i feicio

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi beicio o gwbl yn ystod y deuddeg mis diwethaf (76.8%) a oeddent yn gallu reidio beic pedal.

- Dywedodd 67.0% o'r ymatebwyr hyn eu bod yn gallu beicio, ond dywedodd 30.6% nad oeddent yn gallu gwneud hynny (23.5% o'r holl ymatebwyr).
- O blith yr ymatebwyr, roedd mwy o ddynion yn gallu beicio (73.3%) na menywod (62.5%).

Bod yn berchen ar feic

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn beicio o leiaf unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn (22.5%) am y math o feiciau yr oeddent yn berchen arnynt neu'n eu defnyddio'n rheolaidd.

- Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52.1%) nad oeddent yn berchen ar unrhyw fath o feic neu nad oedd ganddynt feic i'w ddefnyddio'n rheolaidd.
- Dywedodd 42.8% o ymatebwyr eu bod yn berchen ar feic pedal neu fod ganddynt feic pedal i'w ddefnyddio'n rheolaidd. Roedd gan 5.7% e-feic ac roedd 0.5% yn defnyddio cynllun llogi beic er mwyn beicio.

Cyfran o'r prif ddull teithio

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf o fewn taith. Y gyfran o'r prif ddull teithio yw canran y teithiau y pen y flwyddyn sy'n cael eu cwblhau drwy brif ddull penodol.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod ymatebwyr wedi gwneud 8.7 taith y pen y flwyddyn ar feic.

- Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif bod 1.4% o deithiau wedi cael eu gwneud ar feic. Roedd hyn yn cyfrif am 7.4% o'r holl deithiau llesol (118.2 taith y pen y flwyddyn) yn 2025/26.
- Roedd 1.6% o deithiau preswylwyr ardaloedd trefol yn cael eu gwneud ar feic, o'i gymharu â 0.9% o deithiau unigolion mewn ardaloedd gwledig.

Beicio: Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhanbarth

Ffigur 2: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn ar feic, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol sy'n dangos cyfran y teithiau, y pen y flwyddyn, ar feic. Roedd 1.7% o deithiau yn ne-ddwyrain Cymru ac 1.5% o deithiau yn ne-orllewin Cymru wedi cael eu gwneud ar feic, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (1.4%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran o'r prif ddull teithio

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl amlder teithio

- Cyfran fach o'r boblogaeth oedd yn tueddu i wneud teithiau ar feic. Mae beicwyr mynych (y rheini sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos) yn cyfrif am 9.3% o ymatebwyr ond yn ffurfio 88.6% o'r holl deithiau ar feic. Roedd y beicwyr mynych hyn yn gwneud 14.0% o'u teithiau ar feic (82.8 taith y pen y flwyddyn)
- Nodwyd nad oedd 13.1% o ymatebwyr yn beicio'n gyson. Roedd yr ymatebwyr hyn yn beicio 0.6% o'u teithiau (3.8 taith y pen y flwyddyn) ac yn cyfrif am 5.7% o'r holl deithiau ar feic.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn graddio amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi'u grwpio'n gwintelau (pum grŵp o'r un maint). Mae Cwintel 1 (C1) yn cynnwys 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Cwintel 5 (C5) yn cynnwys 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Mae gwybodaeth ynghylch sut mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn diffinio amddifadedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Roedd preswylwyr C1 wedi gwneud 0.9% o deithiau ar feic, ac roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn C5 wedi gwneud 2.0% o deithiau ar feic.
- Roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn C2 wedi gwneud 1.7% o deithiau ar feic, gydag 1.2% o deithiau yn C3 ac 1.1% o deithiau yn C4 yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio'r dull hwn.

Mynegai o wyth gwahanol fath o amddifadedd yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Cyfeirir at y rhain fel meysydd amddifadedd. Ochr yn ochr â chwintelau cyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, rydym hefyd wedi dadansoddi ymddygiad teithio yn ôl y maes incwm a'r maes mynediad at wasanaethau.

Mae'r maes incwm (amddifadedd incwm o hyn ymlaen) yn mesur cyfran y bobl sy'n wynebu amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm isel.

Mae'r maes mynediad at wasanaethau (amddifadedd mynediad at wasanaethau o hyn ymlaen) yn cofnodi anallu aelwyd i gael gafael ar wasanaethau sy'n angenrheidiol i fyw o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys amddifadedd materol (fel methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (fel methu mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol).

Mae rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn ar gael yn adroddiad technegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025.

- Mae defnydd o feiciau'n tueddu i gynyddu wrth i amddifadedd incwm ostwng.
- Nid oedd tuedd glir yn ôl amddifadedd mynediad at wasanaethau.

Beicio fel cyfran o'r prif ddull teithio: Yn ôl amddifadedd incwm ac amddifadedd mynediad at wasanaethau

Ffigur 3: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn yn ôl cwintelau amddifadedd incwm ac amddifadedd mynediad at wasanaethau, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol yn dangos canran y teithiau a wnaed gyda beic ar draws pum cwintel amddifadedd incwm ac amddifadedd mynediad at wasanaethau, o'r mwyaf difreintiedig (C1) i'r lleiaf difreintiedig (C5). Ar gyfer amddifadedd incwm, mae'r ganran yn cynyddu'n gyffredinol tuag at y cwintelau llai difreintiedig, gyda gwerth is yn C4. Ar gyfer amddifadedd mynediad at wasanaethau, mae gan C1 i C4 ganrannau tebyg, tra mae C5 yn amlwg yn uwch.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran o'r prif ddull teithio

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhyw yr ymatebydd

- O'r teithiau beicio a gofnodwyd yn 2025/26, cafodd 83.4% eu cwblhau gan ddynion a ymatebodd.
- Rydym yn amcangyfrif bod dynion a ymatebodd wedi gwneud 15.6 taith y pen y flwyddyn ar feic (2.4% o'r holl deithiau).
- Ar gyfartaledd, roedd menywod a ymatebodd yn gwneud 2.6 taith feicio y pen y flwyddyn ac yn gwneud llai na 0.5% o'r holl deithiau ar feic.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl statws anabledd

- Roedd ymatebwyr nad oeddent yn anabl wedi gwneud 11.4 taith y pen y flwyddyn ar feic (1.7%), o'i gymharu â dim ond 3.8 taith y pen y flwyddyn (0.7%) gan ymatebwyr anabl.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl grŵp oedran

- Roedd ymatebwyr iau yn gwneud cyfran uwch o deithiau ar feic nag ymatebwyr hŷn. Roedd unigolion 16-24 oed yn gwneud 4.1% o'u teithiau ar feic, y gyfran fwyaf o bob grŵp oedran.
- Roedd ymatebwyr 25-44 oed wedi gwneud 1.5% o'u teithiau ar feic, ac roedd y rheini rhwng 45 a 64 oed wedi gwneud 1.2% o deithiau ar feic, gyda grwpiau hŷn yn teithio llai byth drwy ddefnyddio'r dull hwn.

Teithiau aml-ddull

Pan fydd dau ddull teithio neu fwy yn cael eu defnyddio ar gyfer un daith, gelwir hyn yn daith aml-ddull. Y prif ddull teithio yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer y pellter hiraf yn y daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir yn y daith fel dulliau ychwanegol. Mae rhagor o fanylion am deithiau aml-ddull ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod 10.5% o'r holl deithiau yn rhai aml-ddull (65.4 taith y pen y flwyddyn).

- Anaml iawn yr oedd beicio'n rhan o deithiau aml-ddull. Defnyddiwyd beicio fel dull ychwanegol (nad oedd yn brif ddull) o deithio yn 3.9% o'r holl deithiau aml-ddull, ac fel y prif ddull yn 1.2% o deithiau aml-ddull.
- Gan gyfuno teithiau fel y prif ddull (1.4%) ac fel dull ychwanegol (llai na 0.5%) o deithio, defnyddiwyd beic yn 1.8% o'r holl deithiau yn 2025/26.
- Gwnaed 1.8% o deithiau i orsafoedd rheilffordd ac 1.7% o deithiau o orsafoedd rheilffordd ar feic.

Pellter y daith

Pellter y daith ar feic yw hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sy'n bosibl rhwng y man cychwyn a'r gyrchfan. Nid yw'n cael ei fesur fel llinell syth o'r man cychwyn i'r gyrchfan.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi cyfrifo pellteroedd ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod hyd cymedrig y daith ar draws pob dull o deithio yn 15.5km, gyda hyd canolrifol taith yn 5.8km.

- Roedd teithiau ar feic fel arfer yn fyrrach na'r cyfartaledd, gyda hyd teithio cymedrig o 7.2km a hyd teithio canolrifol o 3.7km.
- Rydym yn amcangyfrif bod pobl yn teithio 63.2km y pen y flwyddyn ar feic. Roedd hyn yn 0.7% o gyfanswm y pellter a deithiwyd y pen y flwyddyn (9,670.6km).
- Roedd teithiau ar feic yn cyfrif am 26.5% o gyfanswm y pellter a deithiwyd drwy ddulliau teithio llesol (238.7km y pen y flwyddyn).
- Roedd y rhan fwyaf o deithiau beicio (58.0%) rhwng 1km a 5km o hyd. Roedd 11.7% o deithiau beicio yn fyrrach nag 1km, ac roedd 15.9% rhwng 5km a 10km o hyd.
- Un mesur pwysig o'r defnydd o deithio llesol yw eu cyfran o deithiau o dan filltir (1.61km o hyd) ac o dan bum milltir (8.05km o hyd). Mae'r pellteroedd hyn wedi'u nodi yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol fel pellteroedd rhesymol y gellid eu teithio drwy ddulliau teithio llesol. Roedd teithiau ar feic yn cyfrif am 1.6% o deithiau o dan filltir o hyd, ac 1.9% o deithiau o dan bum milltir o hyd.
- Roedd ymatebwyr yn nodi bod beicwyr mynych yn teithio 554.4km y pen y flwyddyn ar feic, a oedd yn cyfrif am 5.6% o gyfanswm y pellter a deithiwyd y flwyddyn. Roedd beicwyr mynych yn cyfrif am 82.0% o gyfanswm y pellter a deithiwyd ar feic yn 2025/26.
- O ran y rheini nad oeddent yn beicio'n aml iawn, neu nad oeddent yn beicio o gwbl, roedd eu cyfran hwy o'r pellter i gyd gyda'i gilydd ar feic yn llai o lawer. Roedd y grwpiau hyn yn cyfrif am lai na 0.5% o'u cyfanswm.

Beicio: Cyfran y teithiau yn ôl pellter

Ffigur 4: Cyfran y teithiau beicio yn ôl grŵp pellter, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran y teithiau, y pen y flwyddyn, yn ôl grwpiau pellter. Mae dros 50% o deithiau ar feic rhwng 1km a 5km.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, pellter a deithiwyd

Pwrpas y daith

'Pwrpas y daith' yw'r prif reswm pam yr oedd ymatebydd yn teithio. Yn aml iawn, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a wneir ym man cychwyn y daith neu yn y gyrchfan. Os dewisodd ymatebydd 'dychwelyd adref' o'i leoliad fel y rheswm dros ei daith, rydym wedi defnyddio'r pwrpas yn ei leoliad blaenorol fel diben y daith.

Mae teithiau hamdden yn unig, lle mai'r weithred o deithio yw'r gweithgaredd hamdden (er enghraifft, mynd i redeg neu gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.

Mae teithio i gyrchfan lle cynhelir gweithgaredd hamdden (er enghraifft, teithio i'r gampfa neu i barc i gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'i gynnwys. Mae rhagor o wybodaeth am y teithiau a gynhwyswyd ar gael yn ein diffiniadau.

- Y pwrpas mwyaf poblogaidd ar gyfer teithiau ar feic oedd teithio i wneud ymarfer corff neu i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dyma oedd diben bron i draean (32.7%) o'r holl deithiau beicio. Mewn cymhariaeth, wrth ystyried pob dull, dim ond 10.1% o deithiau oedd â'r pwrpas o fynd i wneud ymarfer corff neu gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Roedd cymudo hefyd yn boblogaidd, gan gyfrif am 28.1% o deithiau ar feic, o'i gymharu ag 19.3% o'r holl deithiau yn gyffredinol.

- Teithiau i siopa, y diben mwyaf cyffredin yn gyffredinol, oedd yn y trydydd safle ymysg teithiau ar feic (11.6%).

Profiad wrth feicio

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ychwanegol i feicwyr am eu profiad ar eu taith ddiweddaraf ar feic. Rydym wedi diffinio beicwyr fel unrhyw ymatebydd sy'n dweud ei fod wedi beicio o leiaf unwaith bob ychydig fisoedd. Roedd hyn yn cyfateb i tua 16.3% o'r holl ymatebwyr.

Bodlonrwydd cyffredinol â'r daith

- Dywedodd 66.3% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'u taith yn gyffredinol (23.0% yn fodlon iawn a 43.3% yn eithaf bodlon). Dywedodd 13.7% eu bod yn teimlo'n anfodlon (11.0% yn eithaf anfodlon a 2.7% yn anfodlon iawn).
- Dywedodd 55.4% o'r menywod a ymatebodd eu bod yn teimlo'n fodlon o'i gymharu â 72.0% o'r dynion a ymatebodd – gwahaniaeth o 16.6 pwynt canran.
- Roedd gwahaniaeth o 20.0 pwynt canran rhwng cyfran yr ymatebwyr nad oeddent yn anabl a oedd yn teimlo'n fodlon â'u taith gyffredinol o'i gymharu ag ymatebwyr anabl (71.4% o'i gymharu â 51.4%).
- Ymatebwyr yng nghanolbarth Cymru oedd yn teimlo'n fwyaf bodlon â'r daith gyffredinol ar 76.1%, yna de-orllewin Cymru (70.9%) a gogledd Cymru (70%) a Dd-ddwyrain Cymru ar 61.0%.
- Yn gyffredinol, roedd bodlonrwydd â'r daith gyffredinol yn gostwng wrth i'r grŵp oedran gynyddu, o 79.3% ar gyfer y rhai 16-24 oed i 53.8% ar gyfer y rhai 75 oed a hŷn.

Bodlonrwydd â diogelwch

- Dywedodd 59.4% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon â'u diogelwch (19.1% yn fodlon iawn a 40.2% yn eithaf bodlon). Dywedodd 16.5% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 4.5% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Dywedodd 48.5% o fenywod a ymatebodd eu bod yn teimlo'n fodlon o'i gymharu â 65.2% o'r dynion a ymatebodd – gwahaniaeth o 16.7 pwynt canran.
- Roedd gwahaniaeth o 15.9 pwynt canran rhwng cyfran yr ymatebwyr nad oeddent yn anabl a'r ymatebwyr anabl a oedd yn teimlo'n fodlon â diogelwch (62.6% o'i gymharu â 46.7%).

Bodlonrwydd â nodweddion teithiau ar feic

Cafodd beicwyr eu dewis ar hap i ateb cwestiynau naill ai ar fodlonrwydd ar eu taith ddiweddaraf gyda'r wybodaeth sydd ar gael a'r llwybrau a'r cysylltiadau beicio, neu ar gyfleusterau parcio beic a chyflwr y llwybr neu wyneb y ffordd.

Bodlonrwydd â'r wybodaeth sydd ar gael a llwybrau a chysylltiadau beicio

- Dywedodd 55.3% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon â'r wybodaeth a oedd ar gael, a dywedodd 19.8% eu bod yn teimlo'n anfodlon.
- Roedd 59.7% o'r dynion a ymatebodd yn fodlon â'r wybodaeth a oedd ar gael am eu taith feicio ddiweddaraf, o'i gymharu â 49.4% o'r menywod a ymatebodd – gwahaniaeth o 10.3 pwynt canran.

Bodlonrwydd â llwybrau beicio a chysylltiadau

- Roedd 51.1% o ymatebwyr yn fodlon, a 27.9% yn anfodlon, â llwybrau a chysylltiadau eu taith feicio ddiweddaraf.
- Roedd 37.6% o fenywod a ymatebodd yn fodlon â llwybrau beicio a chysylltiadau. Mae hyn 19.8 pwynt canran yn is na'r 57.4% o ddynion ddywedodd eu bod yn fodlon.

Bodlonrwydd â chyfleusterau parcio beiciau

- Cyfleusterau parcio beiciau oedd â'r lefelau bodlonrwydd isaf a gofnodwyd o blith y ffactorau i gyd. Roedd 41.6% o ymatebwyr yn fodlon â chyfleusterau parcio beic. Roedd 33.1% o ymatebwyr yn anfodlon.

Bodlonrwydd â chyflwr y llwybr neu wyneb y ffordd

- Dywedodd 49.5% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon â chyflwr y llwybr neu wyneb y ffordd. Roedd 33.8% yn anfodlon.

Teimlo croeso

- Dywedodd 66.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf (25.1% yn fawr iawn a 41.8% i ryw raddau). Dywedodd 14.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt (3.1% yn fawr iawn ac 11.5% i ryw raddau).
- Dywedodd 57.7% o fenywod a ymatebodd eu bod yn teimlo bod croeso iddynt, a dywedodd 72.1% o ddynion a ymatebodd eu bod yn teimlo bod croeso iddynt – gwahaniaeth o 14.4 pwynt canran.
- Roedd gwahaniaeth o 15.1 pwynt canran rhwng cyfran yr ymatebwyr nad oeddent yn anabl a'r ymatebwyr anabl a oedd yn teimlo bod croeso iddynt ar eu taith feicio ddiweddaraf (70.3% o ymatebwyr nad oeddent yn anabl, 55.2% o ymatebwyr anabl).
- Ymatebwyr yng nghanolbarth Cymru ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwyaf bodlon â'r croeso, sef 79.5%, ac yna gogledd Cymru (73.8%) a de-orllewin Cymru (72.2%). De-ddwyrain Cymru oedd â'r ganran isaf ar 59.6%.

Pam yr oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd croeso iddynt

Dywedodd 14.7% o feicwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt ar eu taith feicio ddiweddaraf. Gofynnom i'r bobl hyn pam eu bod yn teimlo fel hyn.

- Dywedodd 75.8% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt oherwydd “cerbydau modur”.
- Dilynwyd hyn gan “y pethau o’ch cwmpas” (37.8%) a “beicwyr neu bobl eraill sy’n cerdded neu’n defnyddio olwynion” (17.1%).

Ffactorau a fyddai’n annog beicwyr i feicio’n amlach

- Roedd 19.5% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn feicwyr
- Y ffactorau mwyaf poblogaidd a fyddai’n annog mwy o feicio oedd “mwy o lwybrau oddi wrth draffig” (46.9%), “llwybrau sy’n cael eu cynnal a’u cadw’n well” (39.0%) a “lle diogel i storio beic yn y gyrchfan” (24.2%).

Beth fyddai'n annog pobl i feicio

Ffigur 5: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i feicio, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau fyddai'n annog pobl i feicio'n amlach. Yr ymateb mwyaf cyffredin ar gyfer beicwyr oedd "mwy o lwybrau oddi wrth draffig" (46.9%), a'r ymatebion mwyaf cyffredin ar gyfer pobl nad oeddent yn beicio oedd "dim un o'r rhain" (30.8%) a ddim yn gallu beicio'n amlach (24.5%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid dulliau teithio i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar ba mor aml yr oedd ymatebwyr yn teithio, cafodd 1,085 (19.5%) o unigolion eu nodi fel beicwyr a 4,840 (76.8%) eu nodi fel pobl nad oeddent yn beicio.

Rhyw yr ymatebydd

- "Mwy o lwybrau oddi wrth draffig" a "llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw'n well" oedd y ffactorau a ddewiswyd amlaf gan ddynion a menywod.
- Dewisodd 24.7% o fenywod a ymatebodd "storio beiciau'n ddiogel yn y gyrchfan" fel y trydydd ffactor mwyaf cyffredin, gyda 25.2% o ddynion yn dewis "goleuadau gwell ar lwybrau" fel y trydydd ffactor mwyaf cyffredin.

Statws anabledd

- Cafodd yr un ffactorau mwyaf poblogaidd eu dewis gan ymatebwyr anabl ac ymatebwyr nad oeddent yn anabl.
- Dewisodd cyfran uwch o ymatebwyr nad oeddent yn anabl "lwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" a "mwy o lwybrau oddi wrth draffig" (41.5% a 48.7%) nag ymatebwyr anabl (34.7% a 41.3%).

Rhanbarthau

- Ar draws y rhanbarthau, "mwy o lwybrau oddi wrth draffig" a "llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw'n well" oedd y ddau ffactor uchaf ar gyfrannau tebyg.
- Roedd y trydydd ffactor mwyaf cyffredin yn wahanol, gydag ymatebwyr yn ne-ddwyrain a de-orllewin Cymru yn dewis "lle diogel i storio beic yn y gyrchfan" (28.8% a 24.7%). Dewisodd 31.1% o ymatebwyr yng nghanolbarth Cymru "llai o draffig neu draffig arafach" a dewisodd 19.3% o ymatebwyr yng ngogledd Cymru "llwybrau mwy uniongyrchol".

Ffactorau a fyddai'n annog unigolion nad ydynt yn beicio i feicio'n amlach

- Roedd 76.8% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn unigolion nad oeddent yn feicwyr.
- Dywedodd 30.8% o'r rhai nad oeddent yn feicwyr na fyddai unrhyw un o'r ffactorau ar y rhestr yn eu hannog i feicio'n amlach. Dywedodd 24.5% arall nad oeddent yn gallu beicio'n amlach fel ffordd o deithio.
- Dewiswyd "mwy o lwybrau oddi wrth draffig" gan 22.9% o unigolion nad oeddent yn beicio fel ffactor a fyddai'n eu hannog i feicio'n amlach.

Statws anabledd

- Dewisodd cyfran uwch o ymatebwyr anabl "Dydw i ddim yn gallu beicio fel ffordd o deithio'n amlach" (43.5%) nag ymatebwyr nad oeddent yn anabl (18.1%).
- Ymysg opsiynau eraill, dewisodd cyfran uwch o ymatebwyr nad oeddent yn anabl "mwy o lwybrau oddi wrth draffig" a "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" nag ymatebwyr

anabl (27.0% a 18.4% o ymatebwyr nad oeddent yn anabl o'i gymharu ag 13.4% a 9.2% o ymatebwyr anabl).

- Roedd "Dim un o'r rhain" yn dal yn gyfran uchel ar gyfer ymatebwyr anabl ac ymatebwyr nad oeddent yn anabl, sef 30.0% a 30.2% yn y drefn honno.

Grŵp oedran

- Ar gyfer ymatebwyr yn y grwpiau oedran 16-24 a 25-34, y trydydd ffactor mwyaf cyffredin oedd "llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw'n well" ar 20.2% a 23.1% yn y drefn honno. Ar gyfer grwpiau oedran rhwng 35-44 a 65-74, roedd yr opsiynau ymateb yn cyd-fynd â'r opsiynau ymateb a ddewiswyd gan y rheini nad oeddent yn gyffredinol yn feicwyr, gyda rhywfaint o amrywiaeth o ran cyfran.
- Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n dewis "Dydw i ddim yn gallu beicio fel dull o deithio yn amlach" yn cynyddu wrth i grwpiau oedran gynyddu, o 14.7% o'r rheini rhwng 16 a 24 oed i 67.0% o'r rheini sy'n 85 oed neu hŷn.